

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 13eg Ebrill 2021 am 7.30pm dros ZOOM

1. PRESENNOL

Cynghorwyr : Glyn Davies (Cadeirydd), Gerwyn Owen, Harry Williams, Lyn Williams, Alan Henson, Haf Hughes, Lynford Thomas, Owen Llywelyn

2. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Dan Evans, Hywel Ifans, Johnny Davies

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

Syniadau Prosiect Cymunedol, Y Cyng, Owen Llywelyn (Aelod o Weithgor Dyffryn Aeron)

4. COFNODION

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas. Derbyniwyd yn unfrydol.

5. MATERION YN CODI

8.1 Calonnau Cymru. Derbyniwyd gwybodaeth gan Calonnau Cymru bod grant o £200 ar gael tuag at brynu diffibriliwr SP1 IPAD gyda gwarant o 7 mlynedd. Nododd Y Cyng. Lynford Thomas - trwy garedigwrwydd y teulu y diweddar Ken Davies – y gallwn ddefnyddio'r £500 sydd yn ein coffrau at ddefnydd diffibrilwyr tuag at brynu'r peiriant. Cafwyd cadarnhad bod perchennog Fronfelen, Temple Bar wedi bodloni cais y cyngor i osod y diffibriliwr ar yr adeilad wrth y maes parcio. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** archebu *SP1 IPAD Defibrillator & External Locked Stainless Steel Cabinet* ar gost o £1425.00. Y gost i'r Cyngor felly bydd **£725.00** Mae Mr. Michael Morgans eisoes wedi cynnig ei wasanaeth am ddim i hyfforddi defnyddwyr. **Penderfynwyd** anfon llythyr at y teulu Davies i ddiolch am y cyfraniad.

11.i Sbwriel. Ymateb y Cyngor. Rhannwyd y neges a dderbyniwyd gan Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Sir Ceredigion.

Penderfynwyd anfon llythyr arall at Mr. Jones yn tynnu sylw at Y Cod Ymarfer ar Sbwriel (DEFRA) ac yn fwyaf arbennig ar yr amser ymateb a ddisgwylir i weithredu i ddigwydd yn dilyn hysbysiad o gŵyn.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Soniodd Y Cyng. Lynford Thomas am ei gyfraniadi'r rhaglen Y Byd ar Bedwar yn trafod y sefyllfa parthed rheolau cynllunio yn sgil rhai achosion dadleuol yng Ngheredigion yn diweddar. Soniodd hefyd am gyfarfod arbennig o'r Cabinet a gafodd ei gynnal i drafod materion ariannol yn ymwneud â phrynu tir ac asedau mewn paratoad ar gyfer adeiladu'r ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron. Soniodd hefyd am gyfarfod a drefnwyd gan Heddlu Dyfed Powys am Seibr-ddiogelwch. Roedd yn agoriad llygad i glywed am y twyllo cynnil iawn sy'n digwydd trwy dechnoleg ac anogodd bawb i fod ar eu gwylidwraeth am unrhyw arwydd o dwyll

7. CYLLID

- i. Tâl y Clerc mis Ebrill £195.50
- ii. Taliad i Owen Miles am y gwaith o adnewyddu arosfan bws Cribyn £1650 (yn unol â'r amcangyfrif a dderbyniwyd – cofnodion Medi 6.vi)
- iii. Taliad aelodath Un Llais Cymru £239.00
- iv. Mae ffurflenni'r Archwiliad Allanol wedi cyrraedd a bydd y cyfrifon yn cael eu trosglwyddo I Mr. Gwyn Jones yr Archwilydd Mewnol yn ystod y dyddiau nesaf.

8. **PROSIECT CYMUNEDOL.** Yn dilyn sgwrs am bob un o'r cynigion, **penderyniwyd** gwneud ymholiadau pellach am i. prosiectau Gweithgor Dyffryn Aeron a ii. syniadau cymhathu newydd-ddyfodiaid.

9. **CYNLLUNIO.** Ni dderbyniwyd ceisiadau cynllunio i'w hystyried

10. UNRHYW FATER ARALL

- i. Cais gan y Clerc i gymryd rhan yng Nghynadledd Un Llais Cymru /SLCC ar 13eg o Fai yn rhithiol ar gost o £45.00 + TAW. **Penderyniwyd** yn unfrydol gefnogi'r cais.
- ii. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau CFFI Felinfach am eu gwaith o olchi'r arwyddion. Penderfynwyd yn unfrydol ysgrifennu llythyr o ddiolch iddynt am eu gwaith.
- iii. Trafle, Temple Bar. Rhanwyd gwybodaeth gan Y Cyng. Lynford Thomas am ffeil orfodi sydd wedi ei hagor yn dilyn cwynion am weithgareddau sy'n groes i reolau cynllunio ar y safle hwn. Mae hyn yn golygu bod ymchwiliad ar waith ac i'r Cynghorwyr rannu'r wybodaeth hon gydag unrhywun sy'n codi'r mater â nhw.

11. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf a'r Cyfarfod Blyneddol ar 11eg Mai, 2021, y lleoliad i'w gadarnhau yn unol â chanllawiau COVID ar y dyddiad hwnnw.

